OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2007 No. 2220

# Rheoliadau Personau sy'n Darparu Addysg mewn Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru (Amodau) 2007

**Staff cyflenwi**

**19.**—(1) Pan fo'r amgylchiadau ym mharagraff (2) yn gymwys, nid yw'r gwiriad a bennir yn rheoliad 18(d) yn ofynnol a gall fod y gwiriad manwl o'r cofnodion troseddol y cyfeirir ato yn rheoliadau 14(a) a 17(b) wedi cael ei wneud mwy na thri mis cyn y dyddiad pryd y mae'r person perthnasol i fod i ddechrau gweithio yn y sefydliad.

(2) Dyma'r amgylchiadau—

(a) mae'r person perthnasol wedi gweithio naill ai mewn—

(i) ysgol yng Nghymru mewn swydd a ddaeth ag ef i gysylltiad rheolaidd â phersonau o dan 18 oed; neu

(ii) sefydliad addysg bellach arall yng Nghymru mewn swydd a oedd yn cynnwys darparu addysg a gweithgaredd perthnasol,

yn ystod cyfnod a ddaeth i ben dim mwy na thri mis cyn y dyddiad y mae i fod i ddechrau gweithio yn y sefydliad.